Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth

## Manyleb y Rhaglen

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn berthnasol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2026/27.

This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 3
2. Pwrpas y Rhaglen .......... 3
3. Trosolwg o'r Ddarpariaeth .......... 3
4. Cymhwysedd a Gofynion Mynediad Dysgwyr .......... 4
5. Cynnwys y Rhaglen .......... 4
6. Gofynion Cyflwyno Data .......... 5
7. Monitro ac Archwilio .......... 5
8. Manylion cyswllt .......... 6
9. Atodiadau .......... 7
   A. Cofnodi'r Profiad Gwaith .......... 7

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Fanyleb Rhaglen hon yn amlinellu'r gofynion ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth. Mae'n rhoi trosolwg o ofynion y rhaglen, gan gynnwys cymhwystra dysgwyr ac amodau mynediad; mae'n manylu hefyd ar y gofynion o ran cyflwyno data a monitro fel bo modd i Medr fonitro darpariaeth a deilliannau dysgu ar gyfer y Rhaglen.

Rhaid i Raglen yr Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth fodloni'r safonau a'r amodau a sefydlwyd o fewn y fframwaith rheoleiddio sy'n esblygu gan Medr, gan gynnwys y *Telerau ac Amodau Grant, Amodau Cofrestru, Y Fframwaith Ansawdd,* a'r *Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.*

## 2. Pwrpas y Rhaglen

Mae Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth rhwng diwydiant, addysg a'r llywodraeth i dyfu'r cyflenwad o dalent lleol i gyflogwyr, a sicrhau bod anghenion sgiliau'r presennol a'r dyfodol yn cael eu cefnogi drwy ymyriadau wedi'u targedu.

Mae'r model yn seiliedig ar gysyniad sydd wedi'i hen sefydlu, sef yr Academi Sgiliau Sicr[1] o Ogledd Iwerddon sydd wedi cefnogi twf busnesau cynhenid a mewnfuddsoddiad.

## 3. Trosolwg o'r Ddarpariaeth

Mae'r Academïau Sgiliau, sy'n cael eu cynnal am hyd at 10 wythnos fesul rhaglen, gyda hyd at 30 awr o amser cyswllt bob wythnos, yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i raddedigion diweddar ac oedolion (preswylwyr lleol yn bennaf, gan ganolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd i gefnogi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant) ar gyfer swyddi anodd eu llenwi mewn sectorau lle ceir prinder sgiliau.

Rhaid cynllunio academïau ar y cyd â diwydiant ac ar ôl eu cwblhau rhaid i ddysgwyr gael y sicrwydd o gyfweliad â chyflogwyr sydd wedi cymeradwyo'r rhaglen. Gall dysgwyr hefyd elwa ar lwfans hyfforddi wythnosol a chronfa rwystrau sydd wedi'u cynllunio i wella'u cyfranogiad.

Rhaid defnyddio'r academïau i gefnogi recriwtio mewn sectorau fel:
- Technoleg Gwybodaeth a Datblygu Meddalwedd
- Seiberddiogelwch
- Dadansoddi Data
- Gweithgynhyrchu a Pheirianneg
- Technoleg Ariannol
- Technolegau Digidol / Animeiddio / Cwmwl

[1] Rhaglen hyfforddi cyn cyflogi sy'n seiliedig ar y galw yw'r Academi Sgiliau Sicr. Mae wedi'i chynllunio i helpu cyflogwyr i lenwi bylchau penodol o ran sgiliau gan roi llwybr uniongyrchol i unigolion i swyddi o ansawdd uchel.

Rhaid i'r Rhaglen gynnwys o leiaf un diwrnod llawn[2] o leoliad gwaith gyda chyflogwr nad yw'n eiddo rhannol na llwyr i'r Sefydliad Addysg Bellach, lle gall dysgwyr gael rôl benodol, datblygu eu sgiliau ymarferol a chael profiad o weithredu busnes o ddydd i ddydd.

Dim ond fel dewis olaf y dylid defnyddio Amgylchedd Gwaith Realistig (RWE) sy'n seiliedig ar ddarparydd. Sylwch y gall defnyddio RWE gael effaith andwyol ar ddilyniant dysgwyr, gan fod adborth o'r diwydiant yn dangos bod lleoliad mewn Amgylchedd Gwaith Gwirioneddol yn fwy manteisiol i ddysgwyr sy'n ceisio symud ymlaen i gyflogaeth neu brentisiaeth.

Gall prosiectau a gyflawnir ar ran cleientiaid/ sefydliadau allanol yng ngweithdai'r coleg gyfrif tuag at yr oriau lleoliad gwaith ar yr amod nad ydynt yn ystod yr oriau addysgu sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer y gwersi, a bod y cyflogwr sy'n cydgysylltu'r lleoliad gwaith hefyd yn bresennol. Sylwch hefyd nad yw gweithio ochr yn ochr â thechnegwyr mewnol y coleg i wasanaethu, glanhau a chynnal a chadw cyfarpar yn cyfrif tuag at y cwota lleoliad gwaith.

Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod trefniadau ar waith i oruchwylio unrhyw leoliadau gwaith; gan gynnwys asesiadau iechyd a diogelwch a risg cyfredol.

## 4. Cymhwysedd a Gofynion Mynediad Dysgwyr

Proffil y dysgwr a gaiff ei recriwtio, yn syth cyn dechrau'r rhaglen:

- 19 oed neu'n hŷn;
- â hawl i fyw, gweithio a hyfforddi yn y DU
- di-waith neu’n dan-gyflogedig / yn gweithio’n rhan-amser;
- ni all gwblhau rhaglen ddwys heb ymyrraeth a chefnogaeth[3];
- yn ceisio uwchsgilio / ailsgilio er mwyn ymuno â sector â blaenoriaeth lle gwyddys bod bylchau neu brinder sgiliau.

## 5. Cynnwys y Rhaglen

Rhaglenni wedi'u cyd-gynllunio â diwydiant yw Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth. Maent yn rhoi’r sgiliau sydd eu hangen ar oedolion ar gyfer swyddi gwag anodd eu llenwi mewn sectorau sy’n profi prinder sgiliau.

Rhaid i'r Academïau:

- ddarparu cyrsiau hyfforddi byr, dwys cyn cyflogaeth (6-10 wythnos fel arfer, yn dibynnu ar y math o academi).
- alinio cynnwys y cwrs yn uniongyrchol â swyddi gwag go iawn mewn cwmnïau sy'n cymryd rhan.
- cael eu dylunio ar y cyd rhwng diwydiant a darparwyr addysg er mwyn sicrhau bod hyfforddeion yn ennill yr union sgiliau y mae ar gyflogwyr eu hangen.

---

[2] Mae isafswm o 7 awr yn berthnasol.

[3] Er enghraifft, lwfans hyfforddi wythnosol ar gyfer rhaglenni dwys (£150 yr wythnos) ac efallai y bydd angen mynediad at gyllid rhwystrau hefyd i gefnogi costau cludiant a gofal plant;

Rhaid i hyfforddiant gynnwys sgiliau technegol arbenigol ac offer sy'n berthnasol i'r diwydiant ochr yn ochr â sgiliau cyflogadwyedd.

## 6. Gofynion Cyflwyno Data

Bydd Medr yn defnyddio data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) i fonitro darpariaeth rhaglenni ar gyfer y Rhaglen Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth.

Yn unol â'r amodau a nodir yn y *Telerau ac Amodau Grant* blynyddol, rhaid i ddarparwyr sicrhau y cyflwynir data yn brydlon ac yn y fformat cywir.

Mae Llawlyfr Cymorth Defnyddwyr LLWR[4] yn nodi'r canllawiau y dylai darparwyr eu dilyn wrth gyflwyno data LLWR ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol.

Dylid defnyddio'r codau rhaglen canlynol (LP74) ar gyfer dysgwyr ar Raglenni Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth:

8800J02G Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth (Lefel 2)
8800J03G Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth (Lefel 3)

Bydd Medr yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynir drwy'r meysydd LLWR *LP12 (Enw'r Cyflogwr)* ac *LP13 (Cod Post y Cyflogwr)* i fonitro'r gofyniad hwn, felly rhaid i'r Sefydliadau Addysg Bellach sicrhau bod data wedi'u cwblhau mewn modd amserol ar gyfer pob dysgwr.

Rydym yn sylweddoli na fydd rhai dysgwyr wedi'u cysylltu â chyflogwr nac wedi sefydlu lleoliad gwaith ar ddechrau'r rhaglen, felly disgwylir i'r manylion perthnasol gael eu llenwi cyn gynted ag y bo gwybodaeth y cyflogwr yn hysbys, a thra bo'r dysgwr yn dal ar y rhaglen.

Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod yr oriau a dreulir ar leoliad gwaith gyda chyflogwr yn cael eu cofnodi drwy ddefnyddio'r meysydd LLWR canlynol:

- *LP70 (Amcangyfrif o Oriau Seiliedig ar Waith)*; ac
- *LP72 (Oriau Seiliedig ar Waith Gwirioneddol)*.

O fewn un flwyddyn academaidd, mae cyfanswm o 30 o fyfyrwyr sy'n ymrestru ar raglenni Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth yn gyllidadwy ar gyfer pob darparydd o fewn un flwyddyn academaidd. Mae'r ddwy raglen yn rhannu'r cap.

## 7. Monitro ac Archwilio

Bydd monitro ac archwilio yn cyfrannu at sicrhau bod y canllawiau'n cael eu cymhwyso mewn modd cyson ac yn helpu i asesu a yw polisïau, gweithdrefnau a rheolaethau'n ddigonol.

[4] Gweler Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

Bydd y dull monitro yn canolbwyntio ar gydymffurfio â holl fanylebau'r rhaglen. Cyflawnir hyn drwy fonitro diwedd blwyddyn a phrofion archwilio manwl ar ddysgwyr ar Raglenni Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth.

Bydd Medr yn defnyddio'r data a gyflwynir drwy'r LLWR i fonitro cydymffurfiaeth â manyleb y rhaglen. Bydd hyn yn cynnwys:

- monitro'r elfen lleoliad gwaith drwy ddefnyddio data *LP12* ac *LP13*; a
- monitro data o setiau data'r rhaglen a'r gweithgarwch i wirio bod gofynion darparu yn cael eu bodloni.

Mae dilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn fesur perfformiad allweddol ar gyfer y rhaglen ac yn hollbwysig wrth werthuso darpariaeth y rhaglen.[5] Rhagwelir y bydd mwyafrif y dysgwyr sy'n cwblhau Rhaglen Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth yn llwyddiannus yn sicrhau cyflogaeth, yn ddelfrydol mewn sector lle ceir prinder sgiliau.

Yn ogystal â'r dull monitro a nodir uchod, bydd data a ddychwelir gan sefydliadau Addysg Bellach yn ddarostyngedig i ofynion archwilio diwedd blwyddyn presennol[6]. Yn rhan o hyn, rhoddir pwyslais neilltuol yn y *Nodiadau Cyfarwyddyd i Archwilwyr* er mwyn sicrhau bod archwilwyr allanol yn profi samplau priodol o ddysgwyr sy'n dilyn y Rhaglen Academïau Sgiliau Sector Blaenoriaeth.

Efallai y gofynnir i ddarparwyr hefyd gyflwyno astudiaethau achos i Medr yn ôl yr angen.

## 8. Manylion cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau'n gysylltiedig â chynnwys y Fanyleb Rhaglen hon, cysylltwch â Medr: buddsoddiadamonitro@medr.cymru.

[5] Mae Medr yn parhau i ddatblygu ei adroddiadau ar ddilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn seiliedig ar ddata cysylltiedig, a bydd adroddiadau ar y rhaglen yn cael eu hymgorffori yn y mesurau hyn yn y dyfodol.
[6] Cyhoeddir y gofynion archwilio ar gyfer y flwyddyn gyfredol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## 9. Atodiadau

### *A. Cofnodi'r Profiad Gwaith[7]*

| **Rhaglen Academïau Sgiliau Sector â Blaenoriaeth – Cynllun Lleoliad Gwaith** | |
|---|---|
| **Enw'r Dysgwr:** | |
| **Cymhwyster/cymwysterau a gyflawnir:** | |
| **Enw'r Cyflogwr:** | |
| **Cyfeiriad y lleoliad gwaith:** | |
| **Natur y busnes:** | |
| **Enw'r sawl y bydd y dysgwr yn adrodd iddo:** | |
| **Presenoldeb a gynllunnir:** | |
| **Ymweliadau monitro wedi'u cynllunio gan y tiwtor:** | |

**Yr wyf yn cytuno â'r Cynllun Lleoliad Gwaith uchod:**

| | | |
|---|---|---|
| Llofnodwyd gan y Dysgwr:<br><br>……………………………<br><br>Enw'r Dysgwr:<br><br>………..……………………<br><br>Dyddiad:<br><br>……………………………… | Llofnodwyd gan y Tiwtor:<br><br>……………………………<br><br>Enw'r Tiwtor:<br><br>……………………………<br><br>Dyddiad:<br><br>……………………………… | Llofnodwyd ar ran y Cyflogwr:<br><br>…………………………...<br><br>Swydd yn y cwmni:<br><br>…………………………...<br><br>Dyddiad:<br><br>…………………………... |

[7] DS: Dim ond awgrym yw hwn o'r templed ar gyfer y Cynllun Lleoliad Gwaith.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**